

TRINIAETHAU

CROEN PRYDFERTH HEB LAWDRINIAETH

caci

DATRYSIADAU TRINIAETHAU TEILWREDIG

Mae CACI International wedi paratoi'r ffordd o ran datrysiadau gwrth-heneiddio, adfywiogi croen a datrysiadau croen problemus ers dros ddau ddegawd. Yn aml, disgrifir ein triniaethau fel 'cyfrinach harddwch y carped coch' ac maent wedi denu enwogion nodedig i'n dilyn gan gynnwys y teulu brenhinol, sêr ffilmiau, siwpyr modelau, golygyddion harddwch ac artistiaid colur o bedwar ban byd.

Rydym yn defnyddio'r datblygiadau technolegol a gwyddonol diweddaraf i gynnig amrywiaeth o systemau triniaeth, sydd wedi'u datblygu'n benodol i ddarparu datrysiadau teilwredig i ddynion a menywod o bod oed a math o groen. Mae ein systemau triniaeth ar flaen y gad o ran technoleg triniaethau esthetig. CACI Synergy yw ein system triniaeth i'r wyneb ddiweddaraf a mwyaf datblygedig y dangoswyd ei bod yn lleihau dyfnder crychau hyd at 75% ac yn gwella elastigedd y croen hyd at 88%. Mae'n cynnig amrywiaeth o dechnolegau dihafal gan gynnwys ein S.P.E.D® Dual Action Technology unigryw, sy'n adfywiogi'r croen ar yr un pryd â thynhau'r wyneb.

Mae Synergy wedi'i brofi'n glinigol* i ddarparu canlyniadau hyd yn oed yn gyflymach, yn well ac sy'n para'n hirach na'n systemau wynebol CACI eraill.

*Cutest Systems Ltd 2017 Comparative Microcurrent Study

"TRINIAETHAU GWRTH-HENEIDDIO MWYAF EFFEITHIOL Y DU"

Arolwg Cylchgrawn Professional Beauty

Chwyldro Crychau

Triniaethau

CACI Signature Non-Surgical Facial Toning
(60 Munud) £45.00
Mae'r driniaeth i'r wyneb anfewnwthiol hon yn cynnwys S.P.E.D® Dual Action Technology sy'n darparu adfywiogi'r croen ar yr un pryd â thynhau'r wyneb. Mae'r driniaeth hon yn defnyddio impylsau meicrogerrynt, i godi a thynhau a therapi golau LED i wella elastigedd y croen a lleihau ymddangosiad llinellau mân a chrychau. Mae'n ffyrfio eich wyneb ac yn gwneud i'ch croen edrych yn fwy ifanc, yn ffres ac yn wridog.

CACI Synergy Advanced Non-Surgical Facial Toning
(90 munud) £70.00
Mae'n cyfuno CACI Signature Non-Surgical Facial Toning â thechnegau diblisgo croen uwch er mwyn ailfywhau eich croen, gan arwain at wedd fwy disglair a llyfn. Defnyddir cyfuniad o dechnolegau uwch i dewychu llinellau mân a chrychau, codi a thynhau eich wyneb ar unwaith a ffyrfio eich gwddf.

CACI Synergy Purifying
(45 Munud) £25.00
Mae'r driniaeth hon yn mynd i'r afael â chroen problemus ac yn gadael eich gwedd yn edrych yn llyfn ac yn iach iawn yr olwg. Defnyddir cyfuniad o therapi golau LED coch a glas, glanhau dwfn a thechnegau diblisgo'r croen i oleuo a llyfnhau eich prydwedd yn effeithiol.

Triniaethau Cyflym

CACI Lip Booster
(15 Munud) £15.00
Ewch ati i wella eich gwefusau gyda CACI Wrinkle Comb. Wedi'i chynllunio i roi gwefusau llawnach, mwy trwchus i chi a meddalu llinellau gwefus uchaf, bydd y driniaeth gywiro gyflym hon yn paratoi eich gwefusau parti mewn dim o amser.

CACI Skin Confidence
(30 munud) £40.00
Wedi'i chynllunio i feddalu ac ysgafnhau ymddangosiad olion ymestyn a chreithiau, mae'r driniaeth hon yn defnyddio micrografu orbitol digrisial ynghyd ag effeithiau adnewyddol ysgogiadau microgerrynt a therapi golau LED i sbarduno atgyweirio ac iachau meinwe'r croen.

CACI Hydratone
(15 Munud) £15.00
Cynlluniwyd y driniaeth hon i borthi, hydradu a ffyrfio'r croen. Mae rholeri wynebol sy'n rhyddhau impylsau meicrogerrynt a therapi golau LED ar yr un pryd yn cael eu tylino'n dyner dros fasg wynebol gel hydradu. Mae'r egni adfywiol sy'n cael ei drawsyrru drwy'r rholeri yn darparu hydradiad dwys ar unwaith ac yn helpu adfer ffyrfder y croen, meddalu llinellau mân ac adfywiogi eich croen. Mae'n ddelfrydol ar gyfer trin croen dadhydradedig neu groen wedi'i niweidio gan yr haul.

Sylwer: Gellir perfformio triniaethau cyflym naill ai ar eu pennau eu hunain neu fel ychwanegiadau at unrhyw un o'n triniaethau eraill.

Hydratone

Jowl Lift

Triniaethau Uwch

CACI Eye Revive
(30 munud) £25.00
Mae'n codi a ffyrfio'r cyhyrau o gwmpas ardal eich llygaid, yn arbennig lle byddwch efallai yn tueddu colli manylder wrth i chi heneiddio a datblygu 'amrannau cwflog'. Defnyddia'r driniaeth hon rholeri microgerrynt wedi'u llenwi â serwm ynghyd â'r Masg Eye Revive esmwythaol a lleddfol i leihau golwg chwyddedig a chylchoedd tywyll, a meddalu'r llinellau mân a chrychau sy'n ymddangos o gwmpas eich llygaid.

CACI Electro Cellulite Massage
(30 munud) £25.00
Ewch ati i godi, siapio a thynhau'n ddi-oed ardal eich pen-ôl a'ch cluniau. Mae'r driniaeth hon yn gwella ymddangosiad seliwleit ac yn chwalu dyddodion brasterog. Mae'n symbylu cylchrediad a draeniad lymffatig, a fydd yn helpu i olchi tocsinau i ffwrdd gan roi golwg llyfnach a thynnach, heb bantiau. Mae'r driniaeth hon yn ddelfrydol ar gyfer pampro'r corff cyn gwyliau.

CACI Jowl Lift £25.00
(15 munud)
Ewch ati i dargedu llacrwydd cyhyrau o gwmpas y llinell gên gan ddefnyddio S.P.E.D® Dual Action Technology, sy'n harneisio pŵer therapi golau LED ar yr un pryd â defnyddio microgerrynt CACI. Bydd y driniaeth hon yn codi ac yn ffyrfio eich cyhyrau ac yn ailddiffinio amlinellau'r wyneb i roi golwg mwy ffyrfaidd a thynn. Mae'n ddelfrydol ar gyfer menywod sydd am wella golwg genau llac ac ar gyfer dynion sy'n dymuno llinell gên luniaidd.

Sylwer: Gellir perfformio triniaethau uwch naill ai ar eu pennau eu hunain neu fel ychwanegiadau at unrhyw un o'n triniaethau eraill. Nid yw triniaethau uwch ar gael gyda phob system Synergy. Gwiriwch gyda'ch therapydd i weld a yw'n cynnig y triniaethau hyn.

Cwestiynau Cyffredin

Faint o driniaethau ddylwn i eu cael?
Er y gwelir gwahaniaeth rhyfeddol ar ôl y driniaeth gyntaf, mae'r buddion yn gronnol ac yn nodweddiadol bydd angen cwrs o 10-15 o driniaethau i gael y canlyniadau gorau posibl.

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi orffen cwrs o driniaethau?
Ar ôl cwrs o driniaethau byddwch yn gweld gwelliannau gwirioneddol yn y ffordd y mae eich croen yn edrych ac yn teimlo. Bydd amlinellau eich wyneb yn edrych wedi'u codi ac wedi'u tynhau a bydd golwg mwy ffres a mwy ifanc. Yna argymhellir triniaeth ychwanegol fisol er mwyn cynnal y canlyniadau.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn rhoi'r gorau i driniaethau?
Mae'n union fel mynd i'r gampfa i ymarfer eich corff. Os byddwch yn rhoi'r gorau iddi, bydd y canlyniadau'n lleihau'n raddol ac efallai y bydd cyhyrau eich wyneb yn dychwelyd yn y pen draw i'r hyn yr oedden nhw cyn i'r triniaethau ddechrau.

A fydd unrhyw amser adfer neu amser segur ar ôl fy nhriniaeth?
Na. Mae pob triniaeth yn anfewnwthiol ac yn dyner ar y croen felly does dim amharu ar eich ffordd o fyw.

O dan ba amgylchiadau fyddech chi ddim yn cynghori triniaeth?
Ni chynghorir triniaeth os oes gennych unrhyw un o'r cyflyrau canlynol: Pob math o ganser, beichiogrwydd, epilepsi, diabetes, cyflwr y galon/rheolydd calon, thrombosis, mewnblaniadau wyneb (os ydych yn trin yr wyneb), clefyd y croen (osgoi'r ardal), briwiau croen, llawdriniaeth ddiweddar (a berfformiwyd o fewn y chwe mis diwethaf). Dylid osgoi mannau sy'n cael eu trin â Botox® (aros am dri mis) neu lenwyr dermol (aros pythefnos). Sylwer: Gall gwrthiselyddion, pwysedd gwaed uchel ac ymlacwyr cyhyrau eraill leihau effeithiolrwydd y driniaeth.

Sylwer: Os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaeth neu os oes gennych gyflwr meddygol neu bryder nad yw wedi'i restru uchod, ymgynghorwch â'ch meddyg yn gyntaf.

Beth yw microgerrynt?
Mae therapi microgerrynt yn trosglwyddo impylsau trydanol bach sy'n adlewyrchu maes biodrydanol naturiol y corff ei hun. Mae ysgogiadau microgerrynt yn helpu i ail-addysgu'r cyhyrau a gall godi, ffyrfio a thynhau. Mewn estheteg, mae microgerrynt yn cael ei ddisgrifio'n gyffredin fel "tynhau'r wyneb" neu "godi'r wyneb yn anfeddygol" oherwydd yr effaith codi dramatig y mae'n ei chael ar gyhyrau ac amlinellau'r wyneb.

Beth yw S.P.E.D™ microcurrent LED technology?
Technoleg uwch yw S.P.E.D® microcurrent LED technology sy'n darparu tynhau'r wyneb ac adfywiogi croen mewn gweithred ddeuol ar yr un pryd, y profwyd yn glinigol ei bod yn rhoi canlyniadau cyflymach, gwell ac sy'n para'n hirach na microgerrynt safonol. Mae S.P.E.D® (Simultaneous Photo Electrical Delivery) yn cyfuno'r dechnoleg tynhau wyneb CACI wreiddiol ag ysgogiadau golau LED pwls â disgleirdeb uchel.

Pa fath o deimlad yw microgerrynt?
Mae triniaeth ficrogerrynt bron yn is-synhwyraidd gyda dim ond ychydig o oglais i'w deimlo. Yn aml mae cwsmeriaid yn ei ddisgrifio fel ymdeimlad egnïol neu gynnes ar y croen ac mae bron yn ddi-boen.

A yw microgerrynt yn ddiogel?
Ydy. Yn wreiddiol, datblygwyd therapi microgerrynt fel cymhwysiad meddygol i drin parlys yr wyneb ac adfer ffyrfder cyhyrau trwy roi impylsau microgerrynt bach i'r cyhyrau yr effeithiwyd arnynt. Heddiw, mae'r dechnoleg brofedig hon ar gael bellach mewn miloedd o glinigau esthetig ledled y byd fel triniaeth gosmetig ddi-boen.

Beth yw micrografu orbitol?
Mae cylchdroi'r teclyn llaw yn orbitol yn diblisgo'r croen yn raddol ac yn rheoledig, gan dynnu beiau ac amhureddau.
Defnyddir detholiad o flaenau triniaeth sgraffiniol tafladwy untro â haen o garbid silicon naill ai i ddiblisgo'r epidermis yn arwynebol neu'n ddwfn, gan arwain at wedd gliriach, lyfnach a mwy ifanc yr olwg. Mae micrografu orbitol CACI yn darparu Golau LED ar yr un pryd â'r diblisgo er mwyn hybu iachau ac adfywiogi'r croen.

Pa fath o deimlad yw micrografu orbitol?
Mae'r driniaeth yn gwbl ddi-boen. Rydym yn defnyddio techneg 'dim llusgo' a 'dim tynnu' ar y croen a dirgryniadau cydamserol i wneud y driniaeth yn gyfforddus iawn.

Beth yw pilio uwchsain?
Mae ein teclyn llaw pilio uwchsain unigryw yn dirgrynu'n gyflym ar y croen (27,000 o weithiau yr eiliad) er mwyn diblisgo'n dyner ac ailfywhau. Mae'r dirgryniadau yn tynnu amhureddau croen i'r wyneb ac yn rhyddhau celloedd croen marw gan ddatgelu gwedd iach a disglair. Mae hwn yn ddewis mwy tyner yn lle micrografu orbitol.

Pa fath o deimlad yw pilio uwchsain?
Mae'r driniaeth pilio uwchsain yn creu teimlad cynnes ac egnïol ar y croen ac mae'n driniaeth gyfforddus iawn.

Beth yw therapi golau LED?
Mae therapi golau LED yn defnyddio priodweddau therapiwtig golau coch a glas i dawelu'r croen, niwtraleiddio bacteria a lleihau cochni er mwyn helpu i fynd i'r afael ag acne, brychau a meinwe creithiau. Mae golau glas yn tawelu'r croen ac yn dinistrio bacteria croen ac mae golau coch yn ysgogi twf meinwe newydd ac adfywiad cellog. Mae golau coch a glas wedi'u cyfuno yn hynod effeithiol wrth drin acne a brychau.

Pa fath o deimlad yw'r Wrinkle Comb?
Efallai y bydd rhai cleientiaid yn profi ymdeimlad o oglais dwys, ond gellir lleihau hyn trwy gymhwyso CACI Amino-Lift Peptide Complex ar y cyd â'r Wrinkle Comb.

DATGELU
CROEN
PRYDFERTH

01554 748371
trudy.walters@colegsirgar.ac.uk

www.colegsirgar.ac.uk
@colegsirgar
@Coleg Sir Gar Hair and Beauty
@colegsirgar